| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mai 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2012-13** |

## Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad eglurhaol hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2012-13, sy'n:

- darparu ein barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor;
- datgelu unrhyw amodau i'n barn, ynghyd â'r rhesymau dros yr amod;
- cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio rydym wedi'i wneud i ffurfio ein barn, gan gynnwys y ddibyniaeth a roddir ar waith gan gyrff sicrwydd eraill;
- tynnu sylw at unrhyw faterion rydym yn credu sy'n arbennig o berthnasol i baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a
- sylwadau ar gydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol

## Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn ystod 2012-13 rydym wedi bod yn gweithio i 'God Ymarfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig' (2006), a gyflwynwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Safonau Archwilio Mewnol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA). Mae'r ddwy set o safonau angen adroddiad archwilio mewnol blynyddol i'r 'pwyllgor archwilio'.

Er gwybodaeth, o 1 Ebrill 2013, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn disodli'r safonau uchod, ond mae'r gofynion am adroddiad archwilio mewnol blynyddol yn aros.

## Beth yw'r Argymhellion?

Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i drafod a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2012-13, gan gynnwys y Farn Archwilio gyffredinol a gynhwysir ynddo.